

# Gwahoddiad i Dendro: Monitro Gwleidyddol

Gorffennaf 2023

Colegau Cymru  
Uned 7 CaeGwyrdd  
Greenmeadow Springs  
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB  
Ff: 029 2052 2500  
E: [helo@colegaucymru.ac.uk](mailto:helo@colegaucymru.ac.uk)  
W: [www.colegaucymru.ac.uk](http://www.colegaucymru.ac.uk)

Colleges Wales  
Unit 7 CaeGwyrdd  
Greenmeadow Springs  
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB  
T: 029 2052 2500  
E: [hello@collegeswales.ac.uk](mailto:hello@collegeswales.ac.uk)  
W: [www.collegeswales.ac.uk](http://www.collegeswales.ac.uk)

## Gwybodaeth Cwmni

<b>Enw'r Cwmni</b>	Colegau Cymru / Colegau Cymru Cyfyngedig (Rhiant gwmni Fforwm Services Limited)
<b>Rhif Cwmni</b>	02832103
<b>Rhif Elusen</b>	1060182
<b>Is-Gwmni</b>	Gwasanaethau Fforwm Cyfyngedig
<b>Rhif Cwmni Atodol</b>	03066192
<b>Rhif TAW</b>	655 9801 02
<b>Swyddfa Gofrestredig a chyfeiriad gweithredol</b>	Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF14 7TE
<b>Arweinydd Prosiect</b>	Rachel Cable
<b>Ffôn</b>	029 2052 2500
<b>E-bost</b>	Rachel.cable@colegaucymru.ac.uk

## Cefndir

Mae ColegauCymru yn elusen addysg sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus addysg bellach (AB) yng Nghymru. Credwn fod gan bob dysgwr yr hawl i addysg o'r radd flaenaf, a ddarperir mewn lleoliad diogel, amrywiol a chynhwysol ac o fewn sector sy'n cefnogi'r gymuned ehangach, cyflogwyr a'r economi. Rydym hefyd yn cynnull y Fforwm Prifathrawon Addysg Bellach, sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr addysg bellach.

Rydym yn ymgymryd ag ymchwil a datblygu polisi ac yn darparu cymorth ymarferol i'r gymuned AB. Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ei hasiantaethau, a rhanddeiliaid eraill, rydym yn helpu i lunio polisiau sy'n effeithio ar y sector AB, eu dysgwyr a'u staff. ColegauCymru yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.

Mae Fforwm Services Limited yn gwmni cyfyngedig preifat ac yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Golegau Cymru / Colegau Cymru Cyfyngedig. Mae'n blatfform ar gyfer sianelu gweithgarwch masnachol sy'n cynhyrchu incwm, ac sy'n ein galluogi i hwyluso digwyddiadau, hyfforddiant a chynadleddau sector-benodol.

## Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano

Mae'n hollbwysig bod gan ColegauCymru ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ragorol o faterion gwleidyddol, datblygiadau a thrafodaethau sy'n digwydd yng Nghymru ar faterion sy'n ymwneud â phryderon ColegauCymru.

Mae ColegauCymru yn ceisio contract blynyddol ar gyfer gwasanaethau monitro gwleidyddol, i gynnwys briffio rheolaidd ar:

- Busnes y Senedd, gan gynnwys detholiadau o'r Cyfarfod Llawn a gwaith monitro byw o ddadleuon a chwestiynau perthnasol
- Ymgynghoriadau ac ymchwiliadau'r Senedd
- Busnes pwyllgor perthnasol y Senedd gan gynnwys nodiadau manwl ar unrhyw bwyntiau berthnasol
- Busnes perthnasol Grwpiau Trawsbleidiol y Senedd
- Crynodeb, ymdriniaeth, a thrawsgrifiadau llawn o gamau Bil, ac ystyriaeth y pwyllgorau
- Deisebau perthnasol a gyflwynwyd ym mhroses Pwyllgor Deisebau'r Senedd
- Cwestiynau llafar ac ysgrifenedig pan gânt eu cyflwyno a phan gânt eu hateb
- Adroddiadau Llywodraeth Cymru
- Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru
- Datganiadau i'r wasg gan Lywodraeth Cymru
- Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru
- Sganio'r gorwel sy'n edrych ymlaen
- Enwau yn crybwyll dadansoddiad
- Sesiynau perthnasol y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, a datblygiadau yn Swyddfa Cymru
- Datganiadau i'r wasg neu gyhoeddiadau perthnasol gan bleidiau gwleidyddol
- Rhestrau cyswllt cyfredol ar gyfer Aelodau a staff ymchwil

Ar adegau, gall hyn hefyd gynnwys (yn ôl yr angen):

- Cefnogaeth digwyddiadau
- Cefnogaeth i gynadleddau pleidiau gwleidyddol
- Archwiliad o ganfyddiadau gwleidyddol
- Sganio'r gorwel

Cyhoeddir y contract yn flynyddol, a bydd adnewyddu yn amodol ar wasanaeth boddhaol.

## Gofynion

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tendr i [rachel.cable@colegaucymru.ac.uk](mailto:rachel.cable@colegaucymru.ac.uk) erbyn **16 Awst 2023**.

Yr amserlen ddangosol yw:

Cam	Dyddiad
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau	16 Awst 2023
Hysbysiad o ganlyniad	4 Medi 2023
Dyddiad cychwyn y contract	1 Hydref 2023

Disgwylir i gyflenwyr, fel rhan o'u cais, ddatgan unrhyw berthynas neu gysylltiad ag unigolyn neu bersonau sy'n gyflogai arwyddocaol, wedi'u hethol neu eu henwebu, yn y sefydliadau sy'n dod o fewn cwmpas y gwaith hwn.

**ColegauCymru**  
**Gorffennaf 2023**